**CYMDEITHAS CREFFTWYR GOGLEDD CYMRU/NORTH WALES CRAFTWORKERS**

POLISI CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT

AMCANION

Mae Cymdeithas Crefftwyr Gogledd Cymru ar agor i holl aelodau’r gymuned crefftau. Mae hyn waeth beth fo'u rhyw, oedran, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, neu unrhyw nodwedd arall. Y cyfan a ofynnwn yw bod stondinwyr ac ymwelwyr yn trin ei gilydd â pharch ac urddas.

Rydym yn parchu natur ddwyieithog cymunedau Cymru, gan gydnabod, a lle bo modd, hyrwyddo’r defnydd o’r Gymraeg.

HYGYRCHEDD

Ein nod yw bod mor hygyrch â phosibl i bob stondiniwr ac ymwelydd. Mae hyn yn cynnwys ein dewis o leoliadau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn lle bo modd.

AMRYWIAETH

Rydym yn cydnabod bod amrywiaeth o fudd i bob un ohonom. Dylai ein holl aelodau ac ymwelwyr deimlo bod croeso iddynt a'u bod yn cael eu derbyn.

Rydym yn annog ceisiadau aelodaeth o bob rhan o'r gymuned. Mae eich derbyniad fel aelod o'r Gymdeithas yn seiliedig yn unig ar ansawdd ac agweddau crefftus eich gwaith.

PARCH A CHYNHWYSIAD

Dylai pob aelod sy'n arddangos yn ein ffeiriau crefft deimlo'r un croeso a chynwysiant. Ni fyddwn yn derbyn ymddygiad sy'n rhywiaethol, hiliol, oedraniaethol, homoffobig, trawsffobig neu fel arall yn dramgwyddus. Aflonyddwch yw hyn ac nid oes lle iddo yn ein digwyddiadau.

DELIO HEFO GWAHANIAETHU AC AFLONYDDWCH

Ni fyddwn yn derbyn gwahaniaethu ac aflonyddwch yn ein digwyddiadau gan aelodau na’r cyhoedd. Gofynnir i unrhyw un sy’n ymddwyn mewn modd sy’n groes i amcanion y polisi hwn adael y digwyddiad. Bydd unrhyw arddangoswyr sy'n gwneud hyn yn cael eu heithrio o ddigwyddiadau a drefnir yn y dyfodol gennym ni.

Chwefror 2023

D.S. Gan mai cyfieithiad o’r Saesneg gwreiddiol yw’r ddogfen Gymraeg, pe byddai gwahaniaeth rhyngddynt yn dod i’r amlwg, y fersiwn Saesneg a ystyrir yn gywir.